Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Awdurdodau Lleol
Awdurdodau Cynllunio
Swyddogion Arweiniol Gofal Plant yr Awdurdodau Lleol
Rheolwyr Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yr Awdurdodau Lleol

27 Mawrth 2026

Annwyl Gydweithwyr

**CYNLLUNIO A GOFAL PLANT YNG NGHYMRU**

Mae'r llythyr hwn yn ymdrin â chynllunio, gwarchod plant a darpariaeth gofal dydd a daw ar y cyd oddi wrth y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol a Chynllunio ac Is-adran y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Llywodraeth Cymru. Mae'n ailddatgan pwysigrwydd y ddarpariaeth gofal plant sydd wedi'i nodi mewn llythyrau blaenorol ac yn egluro bod darparu gofal plant digonol yn ardal pob awdurdod lleol yn rhan annatod o'r seilwaith ategol sydd ei angen i gyflawni cynaliadwyedd fel rhan o'r dull Creu Lleoedd sy'n ofynnol gan Bolisi Cynllunio Cymru. Mae'n pwysleisio'r rôl y mae gwarchodwyr plant yn ei chwarae wrth ddarparu gofal plant a'r camau y gall awdurdodau lleol eu cymryd fel rhan o'r broses gynllunio i gefnogi gwarchodwyr plant.

Mae'r llythyr hwn yn disodli Llythyr Egluro Polisi CL-01-16 Cynllunio a Gofal Plant yng Nghymru a gaiff ei ddiddymu drwy hyn.

Mae mynediad at ofal plant fforddiadwy yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru. Mae'n galluogi rhieni i weithio ac i ymgymryd â hyfforddiant ac mae'n cefnogi ein hymgyrch i gynyddu twf economaidd, mynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldebau. Dylai awdurdodau cynllunio ac awdurdodau lleol gydweithio er mwyn helpu i ddatblygu gwasanaethau gofal plant, gan gynnwys gwarchod plant, i blant a theuluoedd a sicrhau bod gwasanaethau o'r fath ar gael iddynt. Mae hyn yn unol â blaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cymru i ddarparu gofal plant fforddiadwy a hygyrch.

Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn rhoi dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol, cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol,  i sicrhau gofal plant digonol i ddiwallu anghenion

Planning Directorate •Cathays Park • Cardiff • CF10 3NQ
Cyfarwyddiaeth Cynllunio• Parc Cathays • Caerdydd • CF10 3NQ

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.
Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi

rhieni/gofalwyr yn ei ardal, y mae angen gofal plant arnynt er mwyn hyfforddi, gweithio neu astudio.

Er mwyn helpu awdurdodau lleol i asesu lefel y ddarpariaeth yn eu hardal, cynhelir Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGPau) sy'n nodi unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i roi trefniadau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth ac i gynllunio ar gyfer y galw yn y dyfodol.

Mae gwarchodwyr plant yn elfen allweddol o'r ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru, ac mae'n hanfodol ystyried y ddarpariaeth gwarchodwyr plant fel rhan o ADGPau ac fel rhan o ymdrechion awdurdodau lleol i gefnogi'r sector gofal plant.

Fel y nodwyd yn yr Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant, mae'r gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig yn debygol o gael effaith sylweddol ar argaeledd a hygyrchedd gofal plant.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithredu ar argymhellion yr Adolygiad ac felly mae'n hanfodol ein bod yn ceisio dymchwel unrhyw rwystrau i'r ddarpariaeth gwarchod plant er mwyn i ni allu cynnal a thyfu'r rhan hanfodol hon o'r sector i gefnogi'r ddarpariaeth leol a bodloni'r galw gan rieni.

Dylai'r eglurhad o Bolisi Cynllunio Cymru a nodir yn **Atodiad A** gael ei gefnogi gan drafodaethau rheolaidd rhwng awdurdodau cynllunio a'r swyddogion hynny o'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth gofal plant. Drwy gydweithio, bydd pob rhanddeiliad yn chwarae rhan wrth sicrhau gwell canlyniadau a dull gweithredu cyson gan bob awdurdod lleol a fydd yn cael effaith barhaus a buddiol ar y cymunedau a gefnogir ganddynt.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw'r corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff y rheoliadau gofal plant eu bodloni ac y caiff y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir eu cyrraedd.

Yn achos gwarchodwyr plant, bydd Arolygwyr AGC yn penderfynu a yw safle yn ddiogel ac yn addas ar gyfer darparu gofal, gan ystyried y nifer mwyaf o blant y bydd gwarchodwr plant yn gofalu amdanynt ar unrhyw un adeg yn seiliedig ar y lle sydd ar gael i bob plentyn. Nodir y meini prawf a ddefnyddir gan AGC i gofrestru ac arolygu'r ddarpariaeth yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010[1], a'r safonau a bennir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Caiff y safon hon o ofal ei sicrhau drwy waith arolygu a rheoleiddio gan AGC. Maent yn ymwneud yn bennaf â diogelwch a llesiant y plant sy'n cael gofal plant ac ansawdd y gofal a gânt.


Er bod gan awdurdodau cynllunio ac AGC ran i'w chwarae wrth gymeradwyo darpariaeth gofal plant newydd, mae'r prosesau hyn yn gweithredu ar ffurf annibynnol. Wrth wneud penderfyniadau ar unrhyw geisiadau cynllunio y gall fod eu hangen i ddarparu gwasanaeth gwarchod plant, rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried eu cynllun datblygu statudol ac amgylchiadau pob achos.

1

Y darparwr gofal plant sy'n gyfrifol am gydymffurfio â deddfwriaeth gynllunio. Felly, er enghraifft, os bydd gwarchodwr plant yn ystyried ehangu ei ddarpariaeth, mae'n bosibl y bydd am ofyn i'r awdurdod cynllunio am gyngor ynghylch ei fwriadau. Ceir llythyr enghreifftiol awgrymedig yn **Atodiad B**, a holiadur yn **Atodiad C**, i warchodwyr plant eu defnyddio i ofyn i awdurdod cynllunio am farn anffurfiol o ran a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer eu cynnig.

O ystyried pwysigrwydd darpariaeth gofal plant, mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau cynllunio i ymateb i ymholiadau o'r fath heb godi tâl.

Yn gywir



**Neil Hemington**
Prif Gynllunydd



**Ruth Conway**
Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae

Planning Directorate •Cathays Park • Cardiff • CF10 3NQ
Cyfarwyddiaeth Cynllunio• Parc Cathays • Caerdydd • CF10 3NQ

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi

## Atodiad A

Mae'r atodiad hwn yn darparu eglurhad polisi ar ddarparu gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd yng Nghymru ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir bellach am y fframwaith rheoleiddio perthnasol. Mae'n cynnwys canllawiau i awdurdodau lleol a gwarchodwyr plant ynghylch caniatâd cynllunio a rhoi cyngor ar sefyllfaoedd unigol.

## DARPARU GWASANAETHAU GWARCHOD PLANT A GOFAL DYDD

## Eglurhad o'r Polisi Cynllunio

Mae mynediad at ofal plant fforddiadwy yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru. Mae'n galluogi rhieni i weithio ac i ymgymryd â hyfforddiant ac mae'n cefnogi ein hymgyrch i gynyddu twf economaidd, mynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldebau.  Dylai awdurdodau cynllunio lleol ac awdurdodau lleol gydweithio er mwyn helpu i ddatblygu a chadw gwasanaethau gofal plant i blant a theuluoedd.

Mae Pennod 5 o Bolisi Cynllunio Cymru yn ymwneud â datblygu economaidd, a ddiffinnir fel y broses o ddatblygu tir ac adeiladau ar gyfer gweithgareddau sy'n arwain at ffyniant, swyddi ac incwm cynaliadwy, hirdymor. Mae'n nodi y dylai'r system gynllunio gefnogi nod Llywodraeth Cymru i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i atgyfnerthu'r economi sylfaenol.   Dylai penderfyniadau ystyried polisïau datblygu lleol a thystiolaeth sy'n benodol i'r ardal leol. Dylai hyn gynnwys Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGPau) a gynhelir gan awdurdodau lleol.

Dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu dull gweithredu cadarnhaol wrth ymdrin â cheisiadau ar gyfer datblygu economaidd.

**Pwyntiau gweithredu:**

- Mae ADGPau awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol wrth helpu awdurdodau lleol i asesu a rheoli digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal. Mae gofal plant, drwy ei natur, yn fater trawsbynciol ac felly mae'n rhyngweithio ag amrywiaeth o feysydd polisi ar draws awdurdodau lleol, gan gynnwys adrannau cynllunio. Dylai'r ADGPau adlewyrchu hyn a dylai cydweithwyr mewn adrannau cynllunio sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r galw am leoedd gofal plant yn eu hardaloedd a sut mae'r galw hwn yn cael ei fodloni neu sut y bwriedir ei fodloni.

- Wrth lunio polisi cynllunio, ystyried ceisiadau cynllunio, a darparu cyngor cyn gwneud cais, dylai awdurdodau cynllunio ystyried pob ffactor perthnasol yn yr ardal leol a dylent ystyried yr angen lleol am leoedd gofal plant yn llawn.

## Canllawiau i Awdurdodau Cynllunio

### Yr Angen am Ganiatâd Cynllunio

Gall fod angen caniatâd cynllunio mewn perthynas â gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd:

- Os bwriedir datblygu safle newydd
- Os bwriedir ehangu neu newid safle presennol mewn modd ffisegol
- Mae cychwyn neu ddwysáu defnydd o safle sy'n bodoli eisoes i warchod plant neu ddarparu gofal dydd yn cyfateb i "newid defnydd sylweddol"

### Newid Defnydd

Fel rheol, nid oes angen caniatâd cynllunio pan nad yw defnyddio rhan o gartref at ddibenion busnes yn newid cymeriad cyffredinol y defnydd a wneir o'r eiddo fel annedd.

Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio o hyd os na fydd defnydd busnes mewn cartref (fel gwarchod plant), ym marn yr awdurdod cynllunio, yn ymylol mwyach o gymharu â'r prif ddefnydd preswyl. Yn yr achos hwn, bydd yr awdurdod wedi dod i'r casgliad bod newid defnydd sylweddol yn debygol o fod wedi digwydd, a bydd angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Mae'r egwyddor gynllunio sefydledig sy'n ymwneud â defnydd atodol (neu ymylol) yn cydnabod y gellir cychwyn gweithgareddau newydd mewn adeilad neu o fewn ei gwrtil heb fod angen caniatâd cynllunio, ar yr amod bod y gweithgareddau’n parhau'n atodol i'r prif ddefnydd. Gellir nodi posibilrwydd bod newid defnydd sylweddol o'r fath wedi digwydd os bydd y defnydd busnes neu'r defnydd amhreswyl yn cynhyrchu lefel o ymwelwyr, traffig, sŵn neu darthau sy'n uwch na'r lefel a fyddai'n cael ei disgwyl fel arfer pe bai'r eiddo yn cael ei ddefnyddio fel cartref heb unrhyw ddefnydd atodol o'r fath. Yr awdurdod cynllunio fydd yn penderfynu a yw defnydd yn atodol, neu a yw'n cyfateb i newid defnydd sylweddol.

Dylai'r rhai hynny sy'n ystyried gwarchod plant gartref ofyn am gyngor eu hawdurdod cynllunio yn ystod cam cynnar o'r broses. Roedd canllawiau blaenorol Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau i roi cyngor cynllunio i warchodwyr plant sy'n gweithredu o'u cartref a byddem yn awyddus i'r trefniant anffurfiol hwn barhau. Mae cwestiynau ynghylch a oes angen caniatâd cynllunio y tu hwnt i gwmpas y gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais statudol a gynigir gan awdurdodau cynllunio.

Gall fod yn ddefnyddiol i ddarpar warchodwyr plant ddefnyddio'r llythyr yn **Atodiad B** i roi gwybod i'r awdurdod cynllunio eu bod yn bwriadu dechrau gwarchod plant yn eu cyfeiriad cartref, gan amgáu'r holiadur yn **Atodiad C** i roi gwybodaeth sylfaenol i helpu'r awdurdod cynllunio i ymateb. Dylai'r cyngor a roddir fod yn glir, yn gyson ac yn amserol. Fel y nodir uchod, o ystyried pwysigrwydd darpariaeth gofal plant, mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau cynllunio i ymateb i ymholiadau o'r fath heb godi tâl.

Os bydd rhywun am fod yn **sicr** nad oes angen cais cynllunio i wneud yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud, gall wneud cais am dystysgrif gan yr awdurdod cynllunio. Mae

proses y Dystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad Arfaethedig yn rhoi lefel o ffurfioldeb a sicrwydd na all ymholiadau anffurfiol ei rhoi. Bydd ffi yn daladwy i'r awdurdod cynllunio, ac mae hawl i apelio os caiff tystysgrif ei gwrthod. Gellid defnyddio'r holiadur yn **Atodiad C** ar y cyd ag ymholiad anffurfiol neu er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â chais am Dystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad Arfaethedig.

Pan fo'n debygol neu'n hysbys eisoes fod angen caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd, er enghraifft mewn perthynas â gofal dydd, gellir defnyddio'r gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais statudol. Y ffi ar gyfer cyngor cyn gwneud cais ar gyfer newid defnydd ar gyfer hyd at 999 metr sgwâr o arwynebedd llawr gros fydd £332[2].

Yn ogystal â chyngor gan awdurdodau cynllunio, gall y rhai hynny sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio hefyd gael cyngor gan Cymorth Cynllunio Cymru. Gwasanaeth gwirfoddol yw Cymorth Cynllunio Cymru, sy'n cynnig cyngor annibynnol a phroffesiynol ar faterion cynllunio i grwpiau cymunedol ac unigolion.

### Polisi Cynllunio Lleol – cynllun datblygu statudol yr awdurdod cynllunio

Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio wneud penderfyniadau yn unol â'r polisïau yn eu cynlluniau datblygu, oni fydd ystyriaethau perthnasol yn gwneud iddynt benderfynu fel arall. Mae'n ofynnol i awdurdodau ymgynghori'n lleol ac ystyried sylwadau a wnaed wrth baratoi cynlluniau datblygu. Bydd yn ofynnol i awdurdodau sy'n paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ddangos bod pobl a sefydliadau lleol wedi cael eu cynnwys yn effeithiol o'r cychwyn cyntaf wrth baratoi'r cynllun.

Gall swyddogion mewn awdurdodau cynllunio roi cyngor ar bolisïau cynlluniau datblygu ar gyfer eu hardal, a gallant nodi sut a phryd y caiff partïon â diddordeb eu cynnwys wrth baratoi'r cynllun. Bydd hyn yn cynnig cyfle i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am ddatblygu gofal plant wneud sylwadau ar y polisïau a ddylai fod yn sail i benderfyniadau dilynol yr awdurdod cynllunio ar geisiadau cynllunio y gallai fod eu hangen ar gyfer defnydd gofal plant.

### Apeliadau Cynllunio

Mae'n bosibl apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod cynllunio i wrthod caniatâd cynllunio, neu ei fethiant i wneud penderfyniad ar gais cynllunio o fewn wyth wythnos. Rhaid gwneud apêl o fewn chwe mis i'r penderfyniad, neu, yn achos diffyg penderfyniad, i ddiwedd y cyfnod o wyth wythnos o ddyddiad cofrestru'r cais. Ymdrinnir ag apeliadau cynllunio gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ar ran Gweinidogion Cymru (www.llyw.cymru/penderfyniadau-cynllunio-ac-amgylchedd-cymru).

### Y System Gynllunio a nifer y plant sy'n cael gofal

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir yn nodi mai'r nifer mwyaf o blant y gall gwarchodwr plant ofalu amdanynt yw deg plentyn hyd at 12 oed.

[2] Mae ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyn gwneud cais yn cynyddu bob blwyddyn, yn unol â chwyddiant.

Mae'n bosibl y bydd rhai gwarchodwyr plant yn gweithio gyda'i gilydd ar yr un safle neu'n cyflogi cynorthwyydd, a gall hyn gynyddu cyfanswm nifer y plant a all gael gofal ar y safle hwnnw. Mae'r lle sydd ar gael i blant ar y safle hefyd yn effeithio ar y niferoedd y gellir cofrestru'r ddarpariaeth ar eu cyfer – fel y nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol o dan Safon 22.

AGC sy'n pennu'r nifer priodol o blant a all gael eu gwarchod mewn lleoliad penodol, a hynny drwy ystyried amrywiaeth o ffeithiau ac amgylchiadau. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys gwirio'r safle, y tu mewn a'r tu allan, ac mae'n ymdrin ag agweddau ar iechyd, hylendid a diogelwch (gan gynnwys trefniadau ar gyfer diogelwch tân ac atal tân), yn ogystal â'r lle sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau'r plant. Mae nifer y plant a fydd yn cael gofal yn rhan annatod o broses cofrestru ac arolygu AGC. Bydd Arolygwyr AGC yn penderfynu a yw safle yn ddiogel ac yn addas ar gyfer darparu gofal, gan ystyried y nifer mwyaf o blant y bydd gwarchodwr plant yn gofalu amdanynt ar unrhyw un adeg a'r lle sydd ar gael i bob plentyn.

Os bydd awdurdodau cynllunio o'r farn, o ystyried y cyngor a nodir uchod, y dylai caniatâd cynllunio fod yn ofynnol i unigolyn ddefnyddio ei gartref at ddibenion gwarchod plant, yna onid oes rhesymau cynllunio penodol dros wneud hynny drwy amodau, ***ni ddylent ddynodi nifer y plant i'w gwarchod na chyfyngu ar y nifer hwnnw.***

## Canllawiau i Awdurdodau Lleol

Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn rhoi dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol, cyn belled ag y bo’n ymarferol rhesymol, i sicrhau gofal plant digonol i ddiwallu anghenion rhieni/gofalwyr yn ei ardal, y mae angen gofal plant arnynt er mwyn hyfforddi, gweithio neu astudio.

Er mwyn helpu awdurdodau lleol i asesu lefel y ddarpariaeth yn eu hardal ac i gyflawni eu dyletswydd statudol, cynhelir Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGPau) ganddynt i asesu'r galw am ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal a'r ddarpariaeth sydd ar gael. Mae'r ADGPau yn nodi unrhyw ddiffyg darpariaeth yn eu hardal sy'n galluogi awdurdodau lleol i roi trefniadau ar waith i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ac i gynllunio ar gyfer y galw yn y dyfodol. O ystyried y flaenoriaeth uchel y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi ar ddarparu gofal plant, mae'n bwysig bod y partïon perthnasol, sy'n ymwneud â darparu gofal plant, yn cydweithio i sicrhau bod cyfleusterau gwarchod plant a gofal dydd digonol yn cael eu darparu yn ardal eu hawdurdod lleol.

## Atodiad B

Templed drafft o lythyr gan ddarpar warchodwr plant yn gofyn am farn anffurfiol ar yr angen am ganiatâd cynllunio.

**Annwyl [Prif Swyddog Cynllunio yr awdurdod cynllunio perthnasol]**

**Rwyf yn ystyried dod yn warchodwr plant cofrestredig. Y bobl sy'n byw ar fy aelwyd yw [*oedolion a/neu blant a'u hoedran*]. Bydd fy musnes gwarchod plant yn cael ei redeg o'm cartref yn y cyfeiriad hwn.**

Rwy'n bwriadu gwarchod uchafswm o [*ee. 10 plentyn*] o dan 12 oed bob dydd. Rwy'n cadarnhau bod y canlynol yn berthnasol i'm busnes arfaethedig:

- Bydd fy nghartref yn dal i gael ei ddefnyddio fel preswylfa breifat
- Ni fydd fy musnes yn arwain at draffig na phobl yn galw y tu hwnt i'r lefel a fyddai'n cael ei disgwyl yn rhesymol mewn preswylfa breifat
- Ni fydd fy musnes yn ymwneud ag unrhyw weithgareddau sy'n anarferol mewn ardal breswyl
- Ni fydd fy musnes yn amharu ar fy nghymdogion ar adegau afresymol nac yn creu mathau eraill o niwsans fel sŵn neu arogleuon

Gallaf gadarnhau mai cartref fydd fy nghartref yn bennaf o hyd wrth i mi gynnal fy musnes fel gwarchodwr plant cofrestredig.

Rwy'n deall o daflen Llywodraeth Cymru: *Caniatâd cynllunio – arweiniad ar gyfer busnesau*, nad oes angen caniatâd cynllunio arnaf i gynnal fy musnes gwarchod plant fel yr wyf wedi ei ddisgrifio uchod. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi eich barn anffurfiol ynghylch a oes angen caniatâd cynllunio. Rwy'n deall na fydd eich barn yn rhwymo'r awdurdod cynllunio lleol. Hefyd, pe byddai fy musnes yn newid mewn unrhyw ffordd mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion uchod, mae dyletswydd arnaf i'ch hysbysu.

**Rwyf wedi amgáu holiadur wedi'i gwblhau yn rhoi manylion fy musnes. Os bydd angen gwybodaeth bellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi.**

Yn gywir

Darpar warchodwr plant

## Atodiad C

**FFURFLEN YR HOLIADUR GWARCHOD PLANT**

**BYDD EICH ATEBION I'R CWESTIYNAU HYN YN RHOI GWYBODAETH I'R AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL I'W HELPU I DDWEUD WRTHYCH A OES ANGEN CANIATÂD CYNLLUNIO ARNOCH I WARCHOD PLANT**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Enw'r gwarchodwr plant/Enwau'r gwarchodwyr plant a chyfeiriad llawn y safle gwarchod plant. Rhowch rif(au) ffôn a/neu gyfeiriad e-bost hefyd | Enw(au)<br>Cyfeiriad<br>Rhif ffôn<br>E-bost |
| **2.** | Enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr ymholwr (os yw'n wahanol) | Enw<br>Cyfeiriad<br>Rhif ffôn<br>E-bost |
| **3.** | Cadarnhewch mai annedd yw'r man gwarchod plant | |
| **4.** | Uchafswm y plant y bwriedir eu “gwarchod” | |
| **5.** | Ystod oedran y plant y bwriedir eu “gwarchod” | |
| **6.** | Yn ogystal â'r plant uchod a'u rhieni/gofalwyr, a fydd unrhyw un arall (e.e. cynorthwyydd gwarchod plant neu arlwywr) yn gweithio ar y safle neu'n ymweld â'r safle? Os felly, rhowch fanylion. | |
| **7.** | Beth yw dyddiau ac oriau disgwyliedig y gwasanaeth gwarchod plant? | |
| **8.** | Rhestrwch nifer yr ystafelloedd a'r mathau o ystafelloedd yn yr annedd | |
| **9.** | A fydd unrhyw ystafell benodol yn cael ei neilltuo ar gyfer gwarchod plant **yn unig**? Os felly, rhowch fanylion. | |

| | | |
|---|---|---|
| **10.** | A yw'r annedd, neu ei gwrtil, yn cael ei ddefnyddio at unrhyw ddiben annomestig arall (er enghraifft, storio mewn perthynas â busnes, cadw cerbydau nas defnyddir ar gyfer cludiant domestig gan bobl sy'n byw yn y tŷ, defnydd fel swyddfa, cadw llawer o anifeiliaid anwes, neu unrhyw weithgaredd arall sydd uwchlaw defnydd domestig arferol o annedd gan bobl sy'n byw yno fel arfer)? Rhowch fanylion, hyd yn oed os oes gennych amheuon ynghylch perthnasedd unrhyw weithgareddau o'r fath. | |
| **11.** | Os gwnaethoch ateb “bydd” i Gwestiwn 6, amcangyfrifwch sawl car fyddai'n cael ei barcio yn yr annedd neu'n agos ato. | |
| **12.** | Amcangyfrifwch sawl “taith cerbyd" fyddai'n cael ei chynhyrchu bob dydd gan y gweithrediad gwarchod plant (byddai rhiant/gofalwr yn dod â phlentyn ac yn casglu plentyn yn cyfrif fel dwy "daith cerbyd") | |
| **13.** | Ymhle rydych yn disgwyl y byddai cerbydau a fyddai'n galw am gyfnod byr, neu'n parcio trwy'r dydd, yn cael eu parcio? (efallai yr hoffech gynnwys braslun i ddangos y trefniadau parcio) | |
| **14.** | Unrhyw wybodaeth arall yr hoffech ei rhoi (atodwch nodiadau pellach os byddwch am wneud hynny) | |

**Eich Llofnod . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . Dyddiad . . . . . . . . .. .**

DS. Gweithdrefn anffurfiol yw hon, i'ch galluogi i gael cyngor proffesiynol am gynllunio gan swyddogion cynllunio lleol yn gyflym, ond ni fydd yr ymateb i'ch ymholiad yn rhwymo'r awdurdod yn gyfreithiol. Gallwch gael ymateb ffurfiol trwy wneud cais ffurfiol am Dystysgrif sy'n nodi a oes angen caniatâd cynllunio, a gall swyddogion cynllunio roi cyngor pellach ynglŷn â hyn.